

# MAWRTH / MARCH 2023

## Cyngor Cymuned Eglwysrwrw Community Council

Minutes of the monthly meeting held at Hen Ysgol Eglwysrwrw on Tuesday 7th of March 2023 at 8p.m

### 125. PRESENT

Cllrs – Mrs Enid Cole (Chairman), Mrs Lon Davies, Mr Ieuan Davies, Mr Arwel Evans, Mrs Sian Wyn Jones, Mr Gareth Johnson, Mr Sion Lewis Morgan and County Cllr John Davies

### 126. APOLOGIES

Cllr Mr Robin Phillips and Mrs Helen Evans the Clerk. In the absence of the Clerk, County Cllr John Davies agreed to record the minutes of the meeting.

### 127. Minutes of the monthly meeting held on the 7<sup>th</sup> February 2023

After circulation of the minutes and consideration of accuracy, they were accepted and signed as a correct record. It was a unanimous decision of all present.

### Matters arising from the minutes of the last meeting

128. Enhancing Pembrokeshire Grant – Holly Cross previous request for **Frenni Men's Shed Hermon** – County Cllr Davies advised the meeting that the application to fund the project by part funding from the Eglwysrwrw allocation had been refused by the panel. This news was welcomed by all.

129 Following the notice of resignation of the Clerk at the last meeting, an advert for a **Replacement Clerk** remained live till the 18<sup>th</sup> of March. It was pleasing to note that one expression of interest had already been received. It was agreed to convene post the 18<sup>th</sup> of March to consider all applications for the role.

130. Following a site meeting with Marc Owen of the County Council Highways Department, County Cllr John Davies was pleased to report a consensus had been agreed to introduce a 4 hour maximum period for parking at **Eglwysrwrw Public Car Park**. There would be no charging, but a penalty notice regime would be introduced to support the enforcement of the 4 hour maximum stay. This new arrangement would be introduced in the autumn. This was warmly welcomed by the members.

131. No feedback had been received from the Clerk regarding the appointment of a suggested **Internal Auditor**. It was agreed that the Chairman should directly contact both suggested names as soon as possible and report back to the next meeting. **Action – Chairman .**

132. County Cllr Davies confirmed that the crash barriers on the **B4329 near Pont Saeson** had been repaired after three years and that the new bridge priority also at the same location, had been successfully introduced.

### Planning Matters

133. PCC – 22/0915/PA - Treclyn Isaf Eglwysrwrw - New Agricultural Storage Building – *At the outset of consideration of this item Cllr Sion Lewis Morgan declared a personal interest in the matter as a close relative of the applicant. He left the room and did not participate in the item.* It was agreed to support the application. **Action - Clerk.**

134. PCNP – NP/ 23/0052/FUL Castell Gorfod Crosswell – New Forestry Shed – It was agreed to support the application. **Action - Clerk.**

135. PCC – Penlan Eglwysrwrw –New Agricultural Buildings - Notice of REFUSAL was received.

136. It was decided to make it policy and practice that in future all comments made on planning applications whether they be of support, no observations or objections are to be reported to all planning authorities in a timely manner. **Action - Clerk to note.**

## MAWRTH / MARCH 2023

### Correspondence for Information

137. PCC – Landscape Character Assessment LDP Supplementary Guidance – was noted.

138. Hywel Dda Health Board – Consultation on three options for a new General Hospital at either one of two sites at Whitland or one site at St Clears. Members agreed to support the principle of a new hospital at either of the locations proposed on the basis it was fully funded. The proposal was deemed by the members to provide a convenient location to the inhabitants of the Community.

#### **Action – Clerk.**

139. Hywel Dda Newsletter – was noted.

### Correspondence for Decision

140. One Voice Wales – Welsh Government Environment Act Public Bodies Obligation – Members were informed of the statutory requirement for the Council to produce an annual Bio Diversity report as per the above regulation. The Clerk was instructed to seek examples from other Councils who had already produced such a report. **Action – Clerk to report back.**

### Financial Matters

141. Balance as of 25/02/23 net of all outstanding cheques — **£5,920.45p** – was noted as per circulated bank statement.

142. Urdd Sir Benfro / Pembrokeshire - Request for financial support – It was agreed by all present to make a donation of £100 to support the county activities of the Urdd. **Action Clerk.**

### County Councillor Report

143. County Cllr Davies reported on the proposal by EE to introduce 5G technology in the Eglwysrwrw area from their mast at Home Farm. This news was very well received by the members.

144. Cllr Davies had circulated to all members before the meeting a full county list of the precept requirement for the whole communities of Pembrokeshire. Members found the information informative.

145. Cllr Davies informed the meeting of the recent budget debate at the County Council when it was decided by a majority vote to increase the Council Tax by 7.5% in the forthcoming year. Cllr Davies noted that he had voted against the increase of 7.5% and had supported the amendment by the Independent Group for a 5.5% increase which was lost by 4 votes.

### Any other business

146. Cllr Gareth Johnson raised the issue of large HGV's using the unclassified road from Eglwysrwrw towards Penclawdd Hir Junction. He informed the meeting that pedestrians were finding it difficult to step off the carriageway to avoid large vehicles. Cllr Davies would speak to the transport company to advise them to consider an alternative route. **Action County Cllr Davies.**

147. Cllr Sian Jones requested that a bin be provided near the Car Park / Bus Stop area in Eglwysrwrw due to a considerable amount of rubbish being thrown into the shrub beds . It was agreed by all to relocate the current bin at the Village Pound to the suggested new location by the bus stop. **Action County Cllr Davies .**

### Date and time of next meeting

148. Monthly meeting Tuesday 4th April 2023 Hen Ysgol Eglwysrwrw at 8pm

Meeting ended at 9pm

# MAWRTH / MARCH 2023

## ACTION LOG

### MINUTE

- |  |             |
|--|-------------|
| 131. Seek Internal Auditor -                             | Chairman    |
| 133. PCC - Treclyn Isaf Eglwyswrw - planning response -  | Clerk       |
| 134. PCNP –Castell Gorfod Crosswell- planning response - | Clerk       |
| 138. Hywel Dda Health Board – Consultation response -    | Clerk       |
| 140. Welsh Government Environment Act - report back -    | Clerk       |
| 142. Urdd Sir Benfro - Donation £100 -                   | Clerk       |
| 146. Issue of large HGV's on unclassified Road -         | County Cllr |
| 147. Relocation of Litter Bin -                          | County Cllr |

## MAWRTH / MARCH 2023

Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Hen Ysgol Eglwyswrw nos Fawrth 7fed o fis Mawrth 2023 am 8y.h.

### **125. PRESENNOL**

Cynghorwyr – Mrs Enid Cole (Cadeirydd), Mrs Lon Davies, Mr Ieuan Davies, Mr Arwel Evans, Mrs Sian Wyn Jones, Mr Gareth Johnson, Mr Sion Lewis Morgan a Cynghorydd Sir John Davies

### **126. YMDDIHEURIADAU**

Cyng Mr Robin Phillips a Mrs Helen Evans y Clerc. Yn absenoldeb y Clerc, cytunodd y Cynghorydd Sir John Davies i gofnodi cofnodion y cyfarfod.

### **127. Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 2023**

Ar ôl dosbarthu'r cofnodion ac ystyried eu cywirdeb, fe'u derbyniwyd a'u llofnodi fel cofnod cywir. Yr oedd yn benderfyniad unfrydol gan bawb oedd yn bresenol.

### **Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf**

128. Grant Gwella Sir Benfro –Cais blaenorol gan Holly Cross dros **Shed Dynion y Frenni Hermon** – dywedodd y Cynghorydd Sir Davies wrth y cyfarfod fod y cais i ariannu'r prosiect drwy gyllid rhannol o ddyraniad Eglwyswrw wedi'i wrthod gan y panel. Croesawyd y newydd hwn gan bawb.

129 Yn dilyn yr hysbysiad o **ymddiswyddiad y Clerc** yn y cyfarfod diwethaf, braf oedd nodi bod un datganiad o ddiddordeb eisoes wedi dod i law. Cytunwyd i ystyried y broses penodi i'r swydd wedi y dyddiad cau ar y 18fed o Fawrth.

130. Yn dilyn cyfarfod safle gyda Marc Owen o Adran Briffyrdd y Cyngor Sir, roedd y Cynghorydd sir John Davies yn falch o adrodd bod consensws wedi'i gytuno i gyflwyno uchafswm cyfnod aros o 4 awr ar gyfer parcio ym **Maes Parcio Cyhoeddus Eglwyswrw**. Ni fyddai unrhyw drefn talu, ond byddai trefn hysbysiadau cosb yn cael ei chyflwyno i gefnogi gorfodi'r arhosiad o ddim mwy na 4 awr. Byddai'r trefniant newydd hwn yn cael ei gyflwyno yn yr hydref. Croesawyd hyn yn gynnes gan yr aelodau.

131. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth gan y Clerc ynglŷn â phenodi **Archwiliwr Mewnol** awgrymedig. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd gysylltu'n uniongyrchol â'r ddau enw a awgrymwyd cyn gynted â phosibl ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. **Pwynt Gweithredu – Cadeirydd .**

132. Cadarnhaodd y Cynghorydd sir Davies fod y rhwystrau damwain ar **y B4329 ger Pont Saeson** wedi cael eu hatgyweirio ar ôl tair blynedd, a bod y drefn o flaenoriaeth i draffig ar y bont wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus.

### **Materion Cynllunio**

133. CSP – 22/0915/PA - Treclyn Isaf Eglwyswrw - Adeilad Amaethyddol Newydd – *Cyn dechrau ystyried yr eitem hon datganodd y Cyng Sion Lewis Morgan fuddiant personol yn y mater fel perthynas agos i'r ymgeisydd. Gadawodd yr ystafell ac ni chymerodd ran yn yr eitem.* Cytunwyd i gefnogi'r cais. **Pwynt Gweithredu - Clerc.**

134. PCP – NP/ 23/0052/FUL Castell Gorfod Crosswell – Sied Goedwigaeth Newydd – Cytunwyd cefnogi'r cais. **Pwynt Gweithredu - Clerc.**

135. CSP – Penlan Eglwyswrw – Adeiladau Amaethyddol Newydd – Derbyniwyd Rhybudd o wrthod y cais.

136. Penderfynwyd ei gwneud yn bolisi ac yn arfer bod yr holl sylwadau a wneir ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol, boed yn gefnogol, heb unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau, yn cael eu hadrodd i bob awdurdod cynllunio mewn modd amserol. **Pwynt Gweithredu – Clerc i nodi.**

## MAWRTH / MARCH 2023

### Gohebiaeth er Gwybodaeth

137. CSP – Aseiad Cymeriad Tirwedd Canllawiau Atodol CDLI – nodwyd.

138. Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Ymgynghoriad ar dri opsiwn ar gyfer Ysbyty Cyffredinol newydd naill ai yn un o ddau safle yn Hendy-gwyn ar Daf neu un safle yn Sanclêr. Cytunodd yr Aelodau i gefnogi'r egwyddor o ysbyty newydd yn y naill leoliad neu'r llall a gynigiwyd ar y sail ei fod wedi'i ariannu'n llawn. Roedd yr aelodau o'r farn bod y cynnig yn darparu lleoliad cyfleus i drigolion y Gymuned. **Pwynt Gweithredu - Clerc.**

139. Cylchlythyr Hywel Dda – nodwyd.

### Gohebiaeth ar gyfer Penderfyniad

140. Un Llais Cymru – Cyrff Cyhoeddus - Deddf yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru – Hysbyswyd yr Aelodau o'r gofyniad statudol i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad Bio-Amrywiaeth blynyddol yn unol â'r rheoliad uchod. Cyfarwyddwyd y Clerc i chwilio am enghreifftiau gan gynghorau eraill oedd eisoes wedi cynhyrchu adroddiad o'r fath. **Pwynt Gweithredu - Clerc**  
Materion Ariannol

141. Nodwyd balans cyfrif banc ar 25/02/23 net o'r holl sieciau wedi eu talu -- £5,920.45c - yn unol â'r datganiad banc a ddosbarthwyd.

142. Urdd Sir Benfro - Cais am gymorth ariannol – Cytunwyd gan bawb oedd yn bresennol i wneud cyfraniad o £100 i gefnogi gweithgareddau sirol yr Urdd. **Pwynt Gweithredu - Clerc**

### Adroddiad Cynghorydd Sir

143. Adroddodd y Cynghorydd sir John Davies ar y cynnig gan EE i gyflwyno technoleg 5G yn ardal Eglwyswrw o'u mast yn Home Farm. Cafodd y newyddion hwn groeso gan yr aelodau.

144. Roedd y Cyng Davies wedi dosbarthu i'r holl aelodau cyn y cyfarfod restr sirol lawn o'r gofyniad ardoll ar gyfer holl gymunedau Sir Benfro. Canfu'r aelodau fod y wybodaeth yn ddefnyddiol i'r dyfodol.

145. Adroddodd y Cyng Davies wrth y cyfarfod am y ddadl ddiweddar ar y gyllideb yn y Cyngor Sir pan benderfynwyd drwy bleidlais fo fwyafri i godi Treth y Cyngor 7.5% yn y flwyddyn i ddod. Nododd y Cyng Davies ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y cynnydd o 7.5% ac wedi cefnogi gwelliant gan y Grŵp Annibynnol am gynnydd o 5.5% a gollwyd o 4 pleidlais.

### Unrhyw fusnes arall

146. Cododd y Cyng Gareth Johnson y mater o lorriau mawr yn defnyddio'r ffordd ddi-ddosbarth o Eglwyswrw tuag at Gyffordd Penclawdd Hir. Dywedodd wrth y cyfarfod fod cerddwyr yn ei chael hi'n anodd camu oddi ar y ffordd er mwyn osgoi cerbydau mawr. Byddai'r Cynghorydd Sir yn siarad â'r cwmni trafniadaeth i'w cynghori i ystyried ffordd arall. **Pwynt Gweithredu - Y Cynghorydd Sir.**

147. Gofynnodd y Cyng Sian Jones i bin sbwriel gael ei ddarparu ger y Maes Parcio / Safle Bws yn Eglwyswrw oherwydd bod swm sylweddol o sbwriel yn cael ei daflu i'r llwyni cyfagos. Cytunwyd gan bawb i ad-leoli'r bin presennol sydd yn 'pound' y pentref i'r lleoliad newydd ger y safle bws. **Pwynt Gweithredu - Y Cynghorydd Sir.**

### Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

148. Cyfarfod Misol Nos Fawrth Ebrill 4ydd 2023 Hen Ysgol Eglwyswrw am 8yh

Daeth y cyfarfod i ben am 9yh

# MAWRTH / MARCH 2023

## **LOG GWEITHREDU**

### Rhif Cofnod

- 131. Ceisio Archwilydd Mewnol - Cadeirydd
- 133. CSP - Treclyn Isaf Eglwyswrw - ymateb cynllunio - Clerc
- 134. PCAP –Castell Gorfod Crosswell- ymateb cynllunio - Clerc
- 138. Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Ymateb i'r ymgynghoriad - Clerc
- 140. Deddf yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru - adrodd yn ôl - Clerc
- 142. Urdd Sir Benfro - Rhodd o £100 - Clerc
- 146. Lorriau mawr ar Ffordd gefn ger yr hen swyddfa Bost - Cyng Sir
- 147. Adleoli Bin Sbwriel – Cyng Sir